# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi*

***03 Mawrth 2009***

***Adroddiad yr Uned Forwrol***

***1 – <u>Ffioedd a Thaliadau</u>***

***1.1*** Cyflwynwyd y ffioedd a thaliadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2009/10, i'r Swyddogion Statudol ac i Arweinydd Portffolio'r Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes i'w cymeradwyo. Disgwylir y bydd yr Arweinydd Portffolio wedi cadarnhau'r ffioedd erbyn diwedd mis Chwefror/dechrau Mawrth. Er mwyn sicrhau fod ein cleientiaid yn ymwybodol o'r taliadau fydd yn cael eu codi mae'r Uned Forwrol wedi anfon copi o'r ffioedd a thaliadau drafft i'n holl gleientiaid.

***1.2*** Gwelir copi o'r ffioedd a'r taliadau sy'n berthnasol i borthladdoedd Abermaw ac Aberdyfi yn atodol, a bydd yr Aelodau yn sylwi mai'r argymhelliad yw bod y taliadau i'r rhai sy'n byw yn barhaol yng Ngwynedd yn cynyddu o *3%***,** tra fo'r cynnydd i'r rhai sy'n byw y tu allan i Wynedd yn cynyddu o *5%.* Bydd y gostyngiad mewn TAW o 17.5% i 15% yn sicrhau fod y gost net i'r client yn lleihau.

***1.3*** Rhagwelir y bydd chwyddiant i bob harbwr yng Ngwynedd yn 2008/09 yn *3.97%.* Mae hyn yn cyfateb i gynnydd angenrheidiol o *£11,270* yn ein targed incwm cyffredinol i'r harbwr am 2009/10. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol nad yw'r targed incwm yn Aberdyfi wedi cael ei gyrraedd am nifer o flynyddoedd ac fel a ddisgwylir o dan amgylchiadau o'r fath bydd angen cymryd mesurau eraill i sicrhau fod y gwariant cyffredinol a'r targedau incwm yn cael eu cyrraedd heb gyfaddawdu ar safonau.

***1.4*** Nid yw'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â lansio a chofrestru cychod pŵer a chychod dŵr personol wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae copi o'r ffioedd a'r taliadau i lansio a chofrestru cychod pŵer yn atodol..

***1.5*** Y cynnydd cyffredinol yn y targed incwm i'r Uned Forwrol am 2009/10 yw £51,020 sy'n cynyddu targed incwm cyffredinol yr Uned Forwrol i £2,121,900.

***2. - <u>Cyllidebau</u>***

***2.1*** Mae sefyllfa ariannol yr harbwr yn Aberdyfi ac yn Abermaw ar 31$^{ain}$ Ionawr yn atodol. Bydd yr Aelodau yn nodi fod y targed incwm sy'n ymwneud â harbwr Aberdyfi am 2008/09 yn £40,540, a bod cyfanswm yr incwm a grëwyd hyd at ddiwedd Ionawr 2009 wedi cyrraedd £32,821. O'i gymharu gyda'r llynedd roedd y swm yn £33,967 am yr un cyfnod. Hyd yma, mae'r diffyg yn yr incwm yn £7,719. Roedd y diffyg am yr un cyfnod y llynedd yn £4,413. Ni ragwelir y gellir creu swm sylweddol o incwm yn ystod Chwefror a Mawrth ac felly mae'n debyg na fydd y targed incwm yn cael ei gwrdd.

***2.2*** Fel a nodir o'r manylion ariannol mae'r gwariant hyd yma yn fwy na'r gyllideb o dan nifer o benawdau ac mae hyn yn achosi pryder. Rhagwelir y bydd gwariant

ychwanegol yn ystod mis Mawrth. Mae'r adroddiad ariannol am y trydydd chwarter hyd at ddiwedd Rhagfyr 2008 yn rhagweld y bydd y gorwariant i Aberdyfi efallai yn £6,000 erbyn diwedd mis Mawrth. Bydd cyfanswm y gwariant cyffredinol wedi rhoi ystyriaeth i'r targed incwm.

***2.3*** O gofio am yr hinsawdd economaidd, fe fydd 2009/10 yn flwyddyn heriol i'r Uned Forwrol ac yn enwedig i harbwr Aberdyfi ac Abermaw. Pwysleisir y bydd angen goresgyn y gorwariant a'r diffyg mewn incwm yn enwedig o gofio am yr hinsawdd ariannol bresennol sy'n wynebu'r Awdurdod.

## *3* ***Mordwyo***

***3.1*** Mae'r holl gymhorthion mordwyo sy'n arwain i harbwr Aberdyfi wedi parhau yn eu lle yn ystod rhan gyntaf misoedd y gaeaf. Hyd yma mae'r gost o roi gwasanaeth i'r Cymhorthion Mordwyo ac angorfeydd yr harbwr yn £5,590, ble mae'r gyllideb sydd ar gael yn ddim.

Bydd angen dod o hyd i'r arian o'r gyllideb refeniw bresennol i gwrdd â chostau cynnal a chadw Cymhorthion Mordwyo sydd yn ddyletswydd statudol ble mae'r cymhorthion mordwyo yn cael eu harchwilio yn flynyddol gan Trinity House.

Fel yn y blynyddoedd a fu nid yw'r costau a grybwyllwyd yn cynnwys costau deunyddiau fel cadwynau ac angorion ac mae'r buddsoddiad mewn cadwynau newydd i baratoi am y tymor a ddaw yn £2,700.

Hyd yma, nid oes unrhyw Hysbysiadau i Longwyr, sy'n weithredol yn harbwr Aberdyfi. Yn 2008, cyflwynwyd wyth Hysbysiad i Longwyr i gyd yn Aberdyfi ond ni chyflwynwyd dim ers 24ain Mehefin. Cyflwynwyd Hysbysiad i Longwyr rhif 08/08 i roi gwybod iddynt fod y Bwi Sianel Fordwyo yn ôl yn ei le.

Mae'r Cymhorthydd Mordwyo Port wedi dod i'r lan ar gyfer gwaith cynnal a chadw a bydd yn cael ei ail-osod yn ei le cyn Gwyliau Banc y Sulgwyn. Fel y cofia'r aelodau mae hwn yn fwi tymhorol sydd ar gael i fordwyo o fis Mai i fis Hydref.

## **4 -** ***Staff***

***4.1*** O gofio fod nifer o swyddogion o'r Uned Forwrol yn parhau i fod ar secondiad mewn ardaloedd eraill ac yn parhau ar secondiad am dymor yr haf, bydd gofyn penodi swyddog tymhorol a dros dro i swydd y Cynorthwyydd Harbwr yn Aberdyfi am y tymor a ddaw.

Er mwyn sicrhau bod gwasanaeth digonol yn Aberdyfi rhagwelir y bydd swyddog tymhorol yn dechrau ar y 1af Ebrill. Mae'r swydd was wedi ei hysbysebu yn y wasg leol.

***4.2*** Ar gyfer mwyafrif tymor yr haf bydd un swyddog traeth i Aberdyfi yn cael ei benodi a bydd yn dechrau ar ei ddyletswyddau yng nghanol Mehefin. Yn ychwanegol, bydd dau swyddog traeth yn cael eu penodi i Dywyn a byddant hefyd yn dechrau ar eu dyletswyddau yng nghanol Mehefin.

Nid oes unrhyw benderfyniad wedi ei wneud hyd yma ynglŷn â phenodi Cynorthwyydd Harbwr ychwanegol i Aberdyfi ble mai ei brif gyfrifoldebau fydd monitro a rheoli cychod pŵer sy'n mordwyo yn yr harbwr yn ystod y cyfnod prysur.

Bydd yn rhaid ystyried y sefyllfa ariannol bresennol gan y bydd yn rhaid gwneud arbedion o dan rai penawdau yn y gyllideb os yw'r incwm yn parhau i fod o dan y targed ac os yw'r gwariant yn parhau i gynyddu.

Bydd penodiad staff traeth tymhorol yn sicrhau fod cymorth digonol yn Aberdyfi a Thywyn er mwyn goruchwylio gweithgareddau yn ystod misoedd yr haf. Bydd yn rhaid i'r Uned Forwrol roi ystyriaeth briodol i ddarparu cerbyd yn Nhywyn yn 2009. Y rheswm am hyn yw nad yw hi'n ymarferol cael Swyddfa Traeth ar y promenâd.

## **5 –** ***<u>Gwobr Traeth</u>***

***5.1*** Mae hi'n siomedig gorfod adrodd na fydd yr Uned Forwrol yn gallu cyflwyno cais am wobr y Faner Las i draeth Aberdyfi yn 2009. Ni wnaeth safon y dŵr ymdrochi gyrraedd y safon Canllaw ac felly ni ellir cyflwyno unrhyw gais am y Faner Las. Er hynny, i fod yn gadarnhaol ni wnaeth Ansawdd y Dŵr Ymdrochi gwrdd â'r safon orfodol yn 2008 ac mae'r Uned Forwrol wedi gwneud cais am Wobr Traeth Tref Glan Môr i Aberdyfi.

***5.2*** Yn atodol mae rhestr fanwl o ganlyniadau profion y dŵr ymdrochi yn Aberdyfi yn atodol. Bydd yr Aelodau hefyd yn gallu cymharu Safon y Dŵr Ymdrochi yn Aberdyfi gydag Abermaw ac mae'r wybodaeth yma hefyd yn atodol.

***5.3*** Fel y bydd yr Aelodau'n sylwi o'r gyllideb ynglŷn â thraethau, bu'n rhaid i'r Uned Forwrol adnabod arbedion oherwydd y gostyngiad sylweddol yn y setliad y derbyniodd Cyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cynullid Cymru.

Bydd yr aelodau yn nodi fod y gyllideb o ran Gwobrau Traethau wedi ei chyflwyno fel arbediad ac felly yn dechnegol nid oes gan yr Uned Forwrol unrhyw gyllideb i Wobrau Traethau ac felly bydd cost y ceisiadau gwobrau traethau yn gorfod dod o benawdau cyllideb eraill.

Bydd cost y ceisiadau am Wobrau Traethau yng Ngwynedd yn 2009 oddeutu £6,500. Rhagwelir bod cost Ceisiadau Gwobrau Traethau yng Nghrymu dros 60K yn 2009. Mae'r costau hyn ar gyfer y ceisiadau yn unig ac nid ydynt yn adlewyrchu'r costau ychwanegol sylweddol ar gyfer rheoli'r traeth neu unrhyw waith ychwanegol.

## ***6 -*** ***<u>Materion Cyffredinol</u>***

6.1 Fel y gwŷr yr Aelodau, o adroddiadau blaenorol i'r Pwyllgor mae'r bont droed sy'n arwain i Bryn Llestair (Picnic Island) o'r ffordd fawr yn croesi rheilffordd 'fyw'. Adeiladwyd y bont gyda ffrâm a throedffordd o bren meddal ac mae angen rhoi sylw i gyflwr y droedffordd dros y blynyddoedd diwethaf.

Caiff y bont droed ei harchwilio yn gyfnodol gan Uned Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd ac er nad oes ganddi unrhyw swyddogaeth forwrol, yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r bont a Bryn Llestair.

Caiff y bont droed ei thrwsio fel mae unrhyw ddiffygion yn codi ac mae hi'n anochel y bydd angen mwy o waith atgyweirio yn y dyfodol agos iawn. O gofio fod y bont droed wedi ei hadeiladu o bren meddal, bydd angen newid y bont i gyd ac mae angen dod o hyd i arian i'r gwaith yma. Ni fydd hi'n hawdd dod o hyd i arian sylweddol ar gyfer hyn.

6.2 Bydd y gwaith blynyddol o symud tywod o'r llithrfa ac ardal y lanfa tuag at ardal twyni'r Clwb Golff yn cael ei wneud gan Uned Amddiffyn yr Arfordir o Gyngor Gwynedd yn ystod dechrau mis Mawrth. Bydd y promenâd a'r ardal o amgylch y parc cychod hefyd yn cael ei glirio. Er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith bydd angen adnoddau staffio ychwanegol..

## *7.- Consesiwn Traeth*

***7.1*** Mae'r Uned Forwrol wedi derbyn cais gan Dyfi Donkeys yn gofyn am gael parhau i gynnig teithiau ar fulod yn 2009. Cymeradwywyd y cais a hyderwn y bydd y tywydd dros yr haf yn well yn 2009 o'i gymharu gyda 2008. Mae'r Uned Forwrol wedi llongyfarch Dyfi Donkeys am lwyddo i ennill Gwobr 'Mul Gorau' Prydain yn 2008.

## *8.- Canlyniad Barn Cwsmer*

Yn atodol, er gwybodaeth yr aelodau, gweler ddadansoddiad manwl o'r holiaduron a ddosbarthwyd i holl glientiaid yr harbwr yn ystod 2008. Mae hi'n siomedig fod llai na 50% o'r holiaduron wedi eu dychwelyd.

Bydd yr Uned Forwrol yn ystyried barn y cleientiaid gan geisio gweithredu i wella'r meysydd hynny sydd angen sylw.